

# Teitl Y Swydd: Swyddog Cyfathrebu ac Digwyddiadau

## Ynghylch CYD Cymru

Mae Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru (CYD Cymru) yn sefydliad aelodaeth annibynnol sy'n seiliedig ar ymarferwyr, yn hyrwyddo gwaith ac yn cefnogi'r rhwydwaith cynyddol o fenterau cymunedol yng Nghymru. Mae ein haelodau i gyd yn sefydliadau annibynnol nid-er-elw sy'n gwasanaethu eu cymunedau trwy amrywiaeth eang o wasanaethau a mentrau.

Wedi sefydlu yn gyntaf yn 2003, rydym yn dîm craidd bach gyda chyrhaeddiad a dylanwad cynyddol wrth i ni weithio ochr yn ochr â'n haelodau, pwll mawr a chynyddol o fentoriaid cymheiriaid a phartneriaid profiadol ledled Cymru.

Mae aelodaeth o DTA Cymru yn disgyn i dri haen, ac mae aelodau'n gallu cael mynediad at ystod o wasanaethau yn dibynnu ar eu lefel aelodaeth. Dysgwch fwy yn [dtawales.org.uk](http://dtawales.org.uk)

## Pam gweithio i ni?

Drwy ymuno â CYD Cymru byddwch yn cael y cyfle i wneud newid mawr. Mae pobl yn gweithio i ni os ydynt yn credu yn nerth cymuned, menter gymdeithasol a gweithredu lleol. Mae diddordeb mewn polisi yn werthfawr, ond mae angerdd dros weithredu ymarferol yn hanfodol.

Rydym wedi ymrwymo i feithrin gweithle cynhwysol ac amrywiol lle mae pawb yn cael eu gwerthfawrogi. Rydym yn croesawu ceisiadau gan unigolion o bob cefndir, gan gynnwys grwpiau sydd wedi eu tangynrychioli. Ymunwch â ni i wneud gwahaniaeth i gymunedau yng Nghymru.

Rydym yn agored i'r posibilrwydd o rannu'r swydd hon, felly os ydych chi'n teimlo eich bod chi'n cwrdd â rhai, ond nid pob un o'r manyleb personol, byddem yn eich annog i ymgeisio, gan amlinellu'r elfennau o'r rôl y gallech eu cwrdd. Neu cysylltwch â ni i drafod eich cais.

## Ynglŷn â'r rôl hon a'r rhaglenni y byddwch chi'n eu cefnogi.

Rydym yn chwilio am weithiwr cyfathrebu medrus ac addasadwy i ddarparu cyfathrebu ymgysylltiol a chymorth digwyddiadau yn y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer CYD Cymru a'n rhaglen Egin. Rydym angen rhywun sy'n dwlu ar adrodd straeon i gyfleu nerth gweithredu cymunedol, ac sy'n rhagori ar guradu digwyddiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb sy'n cefnogi hyn..

Rydym yn y flwyddyn gyntaf o raglen tair blynedd a ariennir gan y Loteri Genedlaethol mewn partneriaeth â'n sefydliadau chwaer yn y DU - Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu yr Alban, Locality (Lloegr) a Chymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Gogledd Iwerddon. Bydd y prosiect yn cefnogi aelodau gyda grantiau dysgu cymheiriaid wedi'u hariannu, cyfleoedd rhwydweithio arbenigol, digwyddiadau rhanbarthol, a datblygiad arweinyddiaeth

Mae Egin yn raglen saith mlynedd a ariennir gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, a ddechreuodd yn 2023 ac sy'n rhedeg mewn partneriaeth â Labordai Cydgynhyrchu Cymru, Asiantaeth Ynni Severn Wye, y Tîm Cefnogi Ieuenctid Ethnig ac eraill. Ei nod yw rhyddhau pŵer ar y cyd cymunedau yng Nghymru i gymryd eu camau cyntaf tuag at fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a byw'n fwy cynaliadwy - yn enwedig y rhai sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y newid yn yr hinsawdd.

Mae'r gair "Egin" yn golygu egin neu dyfiant yn y Gymraeg, a'r nod yw helpu syniadau newydd i dyfu ac i gymryd gwreiddyn, gan rymuso cymunedau i ddod ynghyd i siarad am y newidiadau maent am eu gweld. Ein prif ffocws yw grwpiau na fyddai fel arfer yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys mewn sgysiau o gwmpas yr hinsawdd a chynaliadwyedd, ac eto a allai gael eu heffeithio fwyaf gan y newid yn yr hinsawdd. Darllenwch fwy yn [www.egin.org.uk](http://www.egin.org.uk).

Mae CYD Cymru yn rhedeg nifer o brosiectau a rhaglenni eraill ochr yn ochr â chefnogi ein haelodau, gan gynnwys Cronfa Perchnogaeth Gymunedol, Net Zero, Busnes Cymdeithasol Cymru a'r Grŵp Gweithredu Ynni.

## Disgrifiad Swydd

**Teitl y Swydd** Swyddog Cyfathrebu ac Digwyddiadau

**Atebol i** Rheolwr Gwasanaethau Aelodaeth

**Crynodeb o'r Rôl** Darparu cefnogaeth cyfathrebu a digwyddiadau ar gyfer CYD Cymru, Egin, a phrosiectau eraill CYD Cymru yn ôl y gofyn.

**Rheoli** Perthnasoedd ad hoc gyda phartneriaid a/neu gyflenwyr.

**Cyfradd Tâl** £28,000 y flwyddyn (FTE)

**Dyddiau yr Wythnos** 4 diwrnod yr wythnos (0.8 FTE)

**Tymor y Swydd** Parhaol, yn amodol ar gyllid

**Oriau Gwaith** 7 awr y dydd (28 awr yr wythnos), yn gweithio'n hyblyg drwy negodi gyda'r rheolwyr llinell ac gyda dydd Iau fel diwrnod craidd. Gall fod angen gweithio gyda'r nos neu dros y penwythnos i ddiwallu anghenion y rôl.

**Lleoliad Swydd** Mae'r swydd hon yn seiliedig gartref, gyda'r opsiwn i weithio o 'ganolfan swyddfa leol i chi' - unrhyw le yng Nghymru neu o fewn cyrraedd hawdd i Gymru.

Mae gan DTA Cymru swyddfa yng Nghaerdydd, gyda grwpiau staff llai o amgylch y Drenewydd a Machynlleth."

**Disgwyliadau Teithio (safle gwaith)** Rydym yn disgwyl ichi deithio i swyddfa DTA neu leoliad cyfarfod fel rhan o dîm CYD yn rheolaidd yn ôl y gofyn gan y rôl. Bydd costau teithio'n cael eu had-dalu, ac rydym yn blaenoriaethu defnyddio trafndiaeth gyhoeddus lle bo'n bosibl.

**Disgwyliadau Teithio (darpariaeth rôl)** Mae disgwyl teithio o amgylch Cymru (ac o bryd i'w gilydd yn y DU) fel rhan o'r rôl hon. Bydd costau teithio'n cael eu had-dalu.

## Swyddogaethau / cyfrifoldebau

- Rheoli sianeli cyfryngau cymdeithasol (Facebook, Instagram, Twitter/X, YouTube ac LinkedIn) ar ran CYD Cymru ac Egin, gan greu cynnwys ymgysylltiol yn unol â chanllawiau brand sy'n cyfleu pwrpas ac effaith ein gwaith, ac yn adrodd hanes ein haelodau.
- Creu deunyddiau ar-lein a deunyddiau argraffedig wedi'u brandio gan ddefnyddio Canva.
- Creu astudiaethau achos ysgrifenedig o ansawdd uchel, cynnwys gwe, postiadau blog a datganiadau i'r wasg wedi'u teilwra i amrywiaeth o gynulleidfaoedd. Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod y rhain wedi'u cynllunio i gyrraedd cymunedau sydd wedi'u hymyleiddio neu wedi'u heithrio.
- Rheoli gwefannau dwyieithog Wordpress dtawales.org.uk ac egin.org.uk.
- Rheoli'r Gymuned Ar-lein Egin trwy Hivebrite, gan weithio gydag eraill i adeiladu momentwm wrth ei throï'n gymuned ymarfer ryngweithiol.
- Rheoli a chynnal rhestrau postio CYD Cymru ac Egin.
- Cynhyrchu cylchlythyrau chwarterol sy'n arddangos ein gwaith ni a gwaith ein haelodau.
- Trefnu digwyddiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb fel y bo'n ofynnol, ac mewn cydweithrediad ag eraill.
- Chwilio'n rhagweithiol am gyfleoedd i hyrwyddo ein sefydliad a'n rhaglenni, gan helpu i gynyddu ymgysylltiad ac aelodaeth.

**Manyleb person  
Hanfodol**

- Cymraeg (rhugl), gyda dealltwriaeth o Safonau'r Iaith Gymraeg.
- Profiad eang mewn cyfathrebu, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, cysylltiadau cyhoeddus (PR), rheoli gwefannau a chylchlythrau, a dylunio.
- Profiad mewn cynhyrchu a rheoli cynnwys gwefannau, yn ddelfrydol yn Wordpress er y gellir darparu hyfforddiant llawn.
- Profiad o gefnogi a darparu digwyddiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb, gyda sgiliau technegol da gyda systemau archebu ar-lein a thechnolegau cynadledda fideo.
- Cydymdeimlad cryf â nerth cymuned ac ymwybyddiaeth o'r heriau newid hinsawdd. Er bod profiad uniongyrchol yn fuddiol, nid yw'n hanfodol; fodd bynnag, rhaid bod cydymdeimlad ac ymwybyddiaeth yn amlwg.
- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig ac ar lafar rhagorol a sgiliau rhyngpersonol yn y Gymraeg a'r Saesneg, gyda sylw mawr i fanylion a steil cyfathrebu hyderus ac agos-atoch.
- Profiad o greu straeon newyddion, cynnwys ar-lein ac/neu astudiaethau achos.
- Profiad neu sgiliau i gynhyrchu ystod o asedau gweledol yn Canva, gyda llygad da am steil a dealltwriaeth glir o frandio a chanllawiau brand.
- Yn drefnus iawn ac yn hunan-gymhellol, gyda sgiliau rheoli amser rhagorol.
- Trwydded yrru glân yn y DU a mynediad at gerbyd. Rydym yn blaenoriaethu defnyddio trafndiaeth gyhoeddus lle bo modd, fodd bynnag, mae llawer o'n haelodau a'n lleoliadau digwyddiadau wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru sy'n gofyn am ddefnyddio cerbyd i'w cyrraedd.

## Dymunol

- Diddordeb gweithredol yn theori ac arferion newid ymddygiad. Yn ddelfrydol, ond nid yn hanfodol, ym maes newid hinsawdd.
- Profiad o siarad cyhoeddus ar raddfa fach.
- Profiad o lwyfannau trefnu cymunedau digidol, fel Hivebrite neu Mighty Networks.
- Profiad ac ymwybyddiaeth o'r heriau sy'n ymwneud â gweithio o bell ac mewn timau bach.
- Byddai rhywfaint o brofiad mewn ffotograffiaeth a/neu fideo-ddal yn fanteisiol iawn i'r swydd.

## DYDDIADAU ALLWEDDOL

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau** Hanner dydd, Dydd Iau 3ydd Hydref 2024

**Dydd cyfweiliad / dewis** 9fed neu 10fed Hydref 2024

**Dyddiad cychwyn disgwylidig** Cyn gynted â phosibl

## Sut i wneud cais.

Cwblhewch y ffurflen gais a'i dychwelyd i [info@dtawales.org.uk](mailto:info@dtawales.org.uk), gyda theitl y swydd yn y llinell bwnc.

Cwblhewch hefyd Ffurflen Monitro Cyfleoedd Cyfartal:

<https://forms.gle/E1WUWEsjNNSaYDQV9>

Mae'r Ffurflen Monitro Cyfleoedd Cyfartal yn ddienw ac ni fydd yn cael ei chynnwys fel rhan o'r broses ddethol fer. Defnyddir yr holl wybodaeth a ddarperir at ddibenion monitro recriwtio ac ar gyfer darparu data ystadegol yn unig. Cwblhewch hefyd Ffurflen Monitro Cyfleoedd Cyfartal.

